

IFOR HAEI

Enw: Ifor Hael
Priod: Nest wraig Ifor Hael
Plentyn: Tomas ab Ifor Hael
Rhiant: Angharad ferch Morgan ap Maredudd
Rhiant: Llywelyn ab Ifor
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Dyngarwch; Barddoniaeth
Awdur: Ifor Williams

Dyma'r enw a roes [Dafydd ap Gwilym](#) i'w brif noddwr Ifor ap Llywelyn o Fasaleg, sir Fynwy. Er ein bod wedi cynefino â galw'r lle yn ' Maesaleg ' mae profion pendant mai ' Bassalec,' ' Basselec,' oedd yn y 12fed ganrif (gweler ' Llyfr Llandaf,' 273, 319, 329, 333) a chyn hynny. Ceir ach Ifor yn Pen. MS. 133 (R. i, 833) (180), 'tredegyr ymassalec,' 181, 'Gwern y klepa ymassalec,' sef 'ym Masaleg,' ac olrheindir y Phylip oedd yno yn 1550 yn ôl i ' Tomas ap Ivor hael ap Llywelyn ap Ivor.' Enwir y tri brawd, Morgan, Phylip, ac Ifor Hael yn Pen. MS. 176, 206, (R. i, 977); gweler hefyd Mostyn MS. 114 (39-40); Pen. MS. 140 (74-6). I gael yr ach yn gyflawn gweler *Dwnn*, i, 218. Eu mam oedd Angharad ferch [Morgan ap Meredudd, Arglwydd 'Tredegar'](#) (sef y ' Tredegyr ' uchod). Ei hail wr oedd Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn; gweler Pen. MS. 176, 399, lle disgrifir Morgan ap Dafydd fel ' brawd vnvam ac ifor hael.'

Bu tad Angharad farw tua 1331 ([J. H. Davies](#), *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 1907, 68), ac mewn holiad cyfreithiol ar yr achlysur, tyngwyd fod ei etifedd Angharad yn 32 oed; yn 1333, tyngwyd mai 40 oed oedd hi! Ganed hi felly un ai yn 1293 neu 1299, a gellir rhoi geni Ifor tua 1313 neu 1319, y fan gyntaf. Byddai yn ei flodau oddeutu 1340-60. Gwyddys i'w frawd hynaf, Morgan, farw cyn 1384 ([Clark](#), *Limbus Patrum*, 310), ond nid oes sicrwydd am adeg marw Ifor na Nest ei wraig. Rhodder tua 1380 fel amcan yn unig. Yn argraffiad [Pughe](#) o weithiau [Dafydd ap Gwilym](#), 1789, printiwyd pedwar cywydd i Ifor Hael a thair awdl iddo, un ohonynt yn farwnad iddo ef a Nest. Nid yw awduriaeth yr awdl hon, fodd bynnag, y tu hwnt i amheuaeth, canys barnai [Lewis Glyn Cothi](#) yn y 15fed ganrif i [Ddafydd](#) farw o flaen ei noddwr : ' Aeth Dafydd gwawdydd drwy gôr / I nefoedd o flaen Ifor. ' Gweler ymhellach [Williams](#) a [Roberts](#), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym*, 1914, xvii-xx. Ar Basaleg, gweler *B.B.C.S.*, vii, 277.

Awdur

Syr Ifor Williams, (1881 - 1965)

Ffynonellau

[Gweler ymhellach yr ysgrif ar Ddafydd ap Gwilym.](#)

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Ifor ap Llywelyn](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13129242](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.